



Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD IAU, 6ED GORFFENNAF, 2023

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Cyfarfod Aml-leoliad

**Siambwr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH /
Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD Dydd Mercher, 28 Mehefin 2023)

Ian Jones

Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2023

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h.**, **DYDD IAU, 6ED GORFFENNAF, 2023 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig

Annibynnol – Siambr Hywel Dda

Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

5 - 21

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mai, 2023 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. CWESTIYNAU

(a) Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd, y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.17 o'r Cyfansoddiad.

Cwestiwn gan Mr Ieuan Wyn ar ran Cylch yr Iaith (cyfeiriad wedi'i ddarparu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad).

"O ystyried bod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi caniatáu sefyllfa lle bo –

- plant yn cael eu trochi yn unedau'r gyfundrefn drochi am 20% yn llai o amser nag o'r blaen, a hynny drwy gwtogi'r amser y mae'r plant yn yr unedau o 5 diwrnod yr wythnos i 4;
- cwtogi staffio unedau trochi o ddau athro i un;
- unedau trochi yn gorfod cau am gyfnodau o ganlyniad i absenoldeb staff a phrinder athrawon llanw cymwys;
- a hefyd, oherwydd y lleihad, cyfyngu ar allu staff unedau trochi i fynd i'r ysgolion i roi arweiniad a chymorth;

onid ydi hi'n wir bod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi bod yn gyfrifol am wanychu effeithiolrwydd y ddarpariaeth drochi, a bod angen cywiro'r sefyllfa?"

(b) Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau etholedig, y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

- 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/23** 22 - 40
- Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.
- 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23** 41 - 70
- Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2022/23** 71 - 95
- Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu.
- 10. DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION** 96 - 100
- Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.
- 11. ABSENOLDEB AELOD O GYNGOR GWYNEDD** 101 - 102
- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.
- 12. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELFED WYN AP ELWYN

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn yn cynnig fel a ganlyn:-

“Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli'r grymoedd dros gyfiawnder (Y Llysoedd, Carchardai, Yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, a grymoedd eraill ynghlwm) a chreu Awdurdodaeth Gyfreithiol i Gymru.”

13. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL 103

Cyflwyno, er gwybodaeth - Llythyr gan Drafnidiaeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Huw Rowlands i gyfarfod 1 Rhagfyr 2022 o'r Cyngor ynglŷn â gwella gwasanaethau trenau yng Ngwynedd.